

PRIFFYRDD, CYMRU

2013 RHIF. 54

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LÔN MYNEDIAD ODDI AR ALBERT AVENUE, CASNEWYDD) 2013

Gwnaed 11 Ionawr 2013

Yn dod i rym 17 Ionawr 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lôn Mynediad oddi ar Albert Avenue, Casnewydd) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Dinas Casnewydd;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi iddo;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lôn Mynediad oddi ar Albert Avenue, Casnewydd) 2013" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad fod y Gorchymyn wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau priffordd er mwyn gallu datblygu yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 23 Awst 2012 o dan gyfeirnod rhif

11/1311, ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Darpariaethau Angenrheidiol neu Hwylus cyn Cau Priffordd

3. Ni chaniateir cau'r rhan o'r briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 wedi dechrau, a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig i'r datblygwr fod paragraffau (a) a (b),wedi eu bodloni.

Ymgymerywyr a Darparwyr Statudol

4. Pan fo gan ymgymerywyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhan o briffordd (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerywyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod parhad y caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Ionawr 2013

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac erbyn hyn Gweinidogion Cymru sy'n eu harfer yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

YR ATODLENNI

(Brasamcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Y darn hwnnw o'r lôn mynediad sy'n ymgysylltu ag ochr ddwyreiniol y briffordd o'r enw Albert Avenue, ac sy'n ymestyn yn gyfochrog ag anheddau 96 a 98 Albert Avenue yng Nghasnewydd ac wrth eu hymyl, gan ymestyn i gyfeiriad dwyreiniol hyd at ei ben pengaead ac y mae yn ei fan hiraf yn 36 o fetrau, yn ei fan lletaf yn 5.4 metr ac y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 186 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Trosi rhan o adeilad o'r enw'r Coach House y tu cefn i 135 Chepstow Road, Casnewydd i'w defnyddio'n breswylfa ac yn llety staff mewn cysylltiad â'r defnydd masnachol o 135-137 Chepstow Road, Casnewydd.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LÔN MYNEDIAD ODDI AR ALBERT AVENUE, CASNEWYDD) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Awdurdodir cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lôn Mynediad oddi ar Albert Avenue, Casnewydd) 2013 ("y Gorchymyn") yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Cyngor Dinas Casnewydd, Gwasanaethau Stryd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR, yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu cyfeirnod qA1036728.

Os bydd unrhyw un yn dymuno amau dilysrwydd y Gorchymyn neu'r darpariaethau sydd ynddo, gallant wneud hynny ar y seiliau a ganlyn:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. y rhagfarnwyd yn sylweddol yn erbyn ei fuddiannau gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ofynion y Ddeddf,

O fewn 6 wythnos i 17 Ionawr 2013, caiff person wneud cais i'r Uchel Lys atal dros dro neu ddi-ddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd yn y Gorchymyn os yw sail a. neu b. wedi eu bodloni.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth Cymru', 'Gorchymynion Cau TCPA', '2013').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

(Brasamcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Y darn hwnnw o'r lôn mynediad sy'n ymgysylltu ag ochr ddwyreiniol y briffordd o'r enw Albert Avenue, ac sy'n ymestyn yn gyfochrog ag anheddau 96 a 98

Albert Avenue yng Nghasnewydd ac wrth eu hymyl, gan ymestyn i gyfeiriad dwyreiniol hyd at ei ben pengaead ac y mae yn ei fan hiraf yn 36 o fetrau, yn ei fan lletaf yn 5.4 metr ac y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 186 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Trosi rhan o adeilad o'r enw'r Coach House y tu cefn i 135 Chepstow Road, Casnewydd i'w defnyddio'n breswylfa ac yn llety staff mewn cysylltiad â'r defnydd masnachol o 135-137 Chepstow Road, Casnewydd, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 23 Awst 2012 o dan gyfeirnod 11/1311.